# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 9fed o Hydref 2025 am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Alun Thomas

Ddim yn bresenol Y Cynghorydd Geraint Hughes

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11fed o Fedi, 2025.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –**Cafwyd ddiweddariad gan Meirion Macintyre Huws mai y syniad gwreiddiol oedd codi arwydd anstatudol gyda diwyg cwbl ar wahân, yn nodi lle mae Maes y Groes. Ond erbyn hyn nid yw Priffyrdd yn awyddus i godi arwyddion anstatudol drwy'r sir felly awgrymodd Prifyrdd y dylid mabwysiadu'r enw a'u wneud yn statudol. Nid oes gan y Cyngor y statws cyfreithiol i wneud hynny.
Mae trafodaeth felly ar y gweill. Ebost wedi ei yrru i'r Cynghorydd Sîr Dafydd Meurig am ddiweddariad.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ........................................................ Dyddiad ..................................

Gan fod y mater ar y cofnodion am peth amser, Y Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a phwy sydd gyda cyfrifoldeb i wneud yr arwydd yn statudol.

**4.2 Bin Halen Bryn Derwas** – Y Clerc wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd (11/9/25), mae Cyngor Gwynedd yn asesu ac ail lenwi biniau halen mis yma. Mr Morgan am drefnu symud bin Maes y Groes i Fryn Derwas.

**4.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**4.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi cyfarfod Mr David Charles yn y gilfan ar y 19/9/25.
Nid yw Cyngor Gwynedd yn awyddus i osod bin yn y gilfan ond mae nhw'n agored i drefnu casgliadau sbwriel rheolaidd. Trafodwyd hefyd gosod bin ar lwybr Wig. Disgwylir diweddariad am y trefniadau.

**4.5 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre** – Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar y (11/9/25), Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod ar ei rhaglen,
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis.

**4.6 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Derbynwyd ymateb gan Sian Gwenllian MS/AS, gyda ymateb Cyngor Gwynedd fel atodiad. (Gohebiaeth eitem 12)**.** Er nad oes bwriad i ostwng y terfyn cyflymder, mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i edrych ar ffyrdd eraill i wella diogelwch y ffordd drwy ystyried dynodi'r ffordd hon yn 'Lôn Dawel', ac y byddent yn trafod hynny gyda'r Cyngor Cymuned. Nod Lonydd Tawel yw hyrwyddo defnydd mwy diogel o ffyrdd gwledig trwy annog gyrru ystyriol a chodi ymwybyddiaeth o'i ddefnydd gan gerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau. Dim diweddariad.

**4.7 Torri gwair Bro Emrys** – Cyngor Gwynedd wedi torri y gwair. Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.8 –**Sedd Wag Llanllechid Uchaf – dim diweddariad.

**4.9 Wern bach –** Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25) Mae'r ffordd yn un sydd ar lwybr graeanu â blaenoriaeth, felly bydd dim gwaith yn cael ei gynnal nes bydd y gaeaf dros ben.

**4.10 Arwydd Llwybr Tanybwlch –** Mae gosod arwydd llwybr troed ar y rhaglen waith. Y Clerc i ail-gysylltu gyda Mr Rob Jones.

**4.11 Lôn Goed** – Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Y Clerc wedi adrodd at Gyngor Gwynedd, a'r ymateb yw fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'n rhaglen waith rhaglenedig. Dim diweddariad.

**4.12 Eogiaiad Ogwen Bank** – Y Cyngor Cymuned yn falch o glywed fod gratiau mwy mân wedi ei gosod. Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**
Dim adroddiad.

**6. Taliadau**
Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Efan Jones | Petrol - Mower | £18.14 |
| Rhydian Williams | Petrol – Mower | £15.86 |

**7. Y Mynydd**

- Cwt Dafydd Ross. Trafodwyd gosod plac ar y cwt. Penderfynwyd defnyddio rhodd Dragon’s back i dalu am y plac. Y Cyng Robin Williams wedi trefnu cael llechen ac am drefnu iddo gael ei ysgythru.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i’r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.
- Grant y loteri fydd y cam nesaf.
- Cyfarfod cyhoeddus i’w trefnu i gyflwyno y cynllun Cae Peldroed a diweddaru am y sefyllfa grantiau. Hefyd yr opsiwn codi arian yn y gymuned. Cafwyd gopi o Nodau/Amcanion y cyfarfod cyhoeddus gan Y Cyng Evan Jones. Y Clerc i wneud poster i hyrwyddo y cyfarfod.
- Cafwyd cyflwyniad gan Y Cyng Evan Jones am gostau cam un y prosiect Cae Peldroed.

| | |
|---|---|
| Côst | £10,907 |
| Grant Gwynedd Ni | £7167.80 |
| Gwahaniaeth | £3739.20 |

Y cais oedd bod y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £3739.20 at y prosiect.
Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu'r swm llawn.

Hoffai’r Cyng Kevin Williams nodi fod peth arian yn cael ei wario yn Nhalybont a nid Llanllechid.

Hefyd, hoffai’r Cyng Lowri Evans amlygu'r pwysigrwydd o ddiogelu wrth weithio gyda plant

**9. Gohebiaeth**

9.1 Cais Cymunedau gwyrdd, Adran Amgylched Cyngor Gwynedd- Manylion wedi ei rannu gyda Y Cyng Evan Jones.

9.2 Ms Liz Pritchard, trigolyn Talybont - Coeden wedi gor dyfu wrth y cae peldroed.- Y Cyng Rhydian Williams am drefnu cyfarfod Ms Pritchard.

**10. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim

**11. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwrthwynebu. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio'r gwrthwynebiad.

**C25/0230/21/CR**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal y Bont
Codi estyniad unllawr cefn
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda Amodau

**C25/0276/21/DT**
Yr Efail Swynol, Llanllechid
Estyniad unllawr i ochr yr eiddo
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda Amodau

**C25/0488/21/DT**
2 Dôl Helyg, Tal Y Bont, Bangor
Estyniad arfaethedig i gefn yr eiddo
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda Amodau

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**12. Materion Brys/Eraill**

- Arwydd siop Llanllechid wedi ei gamsillafu – Y Clerc i gysylltu gyda Premier Stores
- Twll yn y ffordd wrth eglwys Llan a Pont Llan – Y Clerc i riportio i Gyngor Gwynedd
- Y Clerc i drefnu toriant rhan isaf o Fynwent Llan.

**Diweddariad Mis Medi**

- Chevrons ar troad Talybont wedi torri – wedi riportio i Gyngor Gwynedd
- Arwydd Talybont wedi torri - wedi riportio i Gyngor Gwynedd

**13. Adroddiad Llais Ogwan**

Clywsom gan Y Cyng Rhydian Williams am flwyddyn llwyddianus a cafwyd yn torri gwair y Cae peldroed yn Nhalybont. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i'r holl gwirfoddlwyr am ei hamser.
Yn dilyn adborth da gan y gymuned llynedd, rydym wedi ail-drefnu cael torri'r gordyfiant ochr isaf y fynwent yn Eglwys Llan.
Mae'r Cynghorwyr yn falch o weld fod gratiau mân wedi ei gosod yn Ogwen Bank i atal yr eog rhag cael ei ddal yn y mecanwaith.
Edrychwn ymlaen i groesawu Naomi Jones yn nôl i gyfarfod Mis Tachwedd i glywed am ddiweddariadau prosiectau'r Parc Cenedlaethol yn yr ardal.
Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod datblygiadau Cae Peldroed Talybont yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau 20fed o Dachwedd am 7.00 yh. Rydym yn anog unrhyw un sydd a diddordeb I fynychu.